


Adroddiad Blynyddol Cafcass Cymru 2020–2021



Ar gyfer blant a phobl ifanc



Neges gan Nigel Brown, Prif Weithredwr Cafcass Cymru



Mae eleni wedi bod yn anodd iawn i Cafcass Cymru gan fod COVID-19 wedi'n gorfodi i newid y ffordd yr oeddem yn gweithio'n gyflym iawn. Rydym wedi gweithio gydag 11,000 o blant eleni ac rwy'n falch iawn o bawb am weithio'n galed i wneud y newidiadau yr oedd eu hangen arnom er mwyn inni allu parhau i wneud ein gwaith. Er mwyn cadw pawb yn ddiogel, ymunon ni ag achosion llys o bell gan ddefnyddio ein gliniaduron a'n ffonau. Hefyd, gwnaethom ddechrau defnyddio galwadau fideo (megis Skype a FaceTime) i siarad â phlant a phobl ifanc. Cyn COVID-19, roeddem yn gwneud y pethau hyn bob tro wyneb yn wyneb, felly roedd hwn yn newid mawr inni. Gwnaethom weithio yn galed hefyd i gadw ein staff yn ddiogel a gofalu am eu hiechyd a'u llesiant.

Rydym wedi gweithio'n galed gyda llawer o bobl a sefydliadau eraill eleni hefyd, er mwyn inni allu sicrhau bod yr holl newidiadau yr oedd yn rhaid inni eu gwneud yn gweithio'n dda. Rydym wir yn gwerthfawrogi'r holl gymorth a chefnogaeth yr ydym wedi'u derbyn gan aelodau o'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn newid sut yr ydym yn gweithio.

Y flwyddyn nesaf, byddwn yn edrych ar yr holl newidiadau a wnaethom eleni ac yn penderfynu a ydym am gadw unrhyw un ohonynt. Byddwn yn gwneud hyn trwy wrando ar ein staff a'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc. Ein nod yw sicrhau ein bod yn helpu plant a'u teuluoedd yn y ffyrdd gorau posibl.

Ein gwasanaeth (yr hyn yr ydym yn ei wneud i blant, teuluoedd a'r llysoedd)

Roedd yn rhaid inni wneud rhai newidiadau mawr i'n gwasanaeth yn ystod 2020-21 oherwydd pandemig COVID-19.

Roedd rhai o'r pethau y gwnaethom eu newid fel a ganlyn:


Gwnaethom ddiweddarau ein “datganiad o ddisgwyliadau” – mae hwn yn dweud wrth bobl yr hyn yr ydym i fod i'w wneud, pryd a sut.



Gwnaethom roi ein llythyrau a'n taflenni gwybodaeth ar ein gwefan.

Gwnaethom ysgrifennu ganllaw cwynion newydd.

Gwnaethom ddefnyddio gwasanaethau dehongli o bell, er mwyn ei gwneud yn haws i deuluoedd nad Saesneg na Chymraeg yw eu mamiaith siarad â ni.



Roedd gwaith arall yn cynnwys:

Ym mis Mehefin, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder adroddiad yn dweud wrthym sut y gallwn helpu plant a theuluoedd yn well mewn achosion cyfraith breifat yng Nghymru. Rydym wedi bod yn gweithio gyda sefydliadau eraill i ddarganfod y ffordd orau o wneud y newidiadau hyn.

Gwnaethom ddweud wrth bawb am ein cynllun strategol newydd hefyd, sydd â'n holl nodau ar gyfer yr hyn yr ydym am ei wneud dros y pum mlynedd nesaf.

Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc

Mae gennym gydberthynas cryf â'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc ac maent wedi parhau i chwarae rôl bwysig eleni.

Rydym wedi anfon blogiau a ysgrifennwyd gan aelodau o'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc at ein holl staff er mwyn iddynt eu darllen.

Gwnaethom anfon awgrymiadau da ar bynciau megis cyfathrebu â phlant a chydaddoldeb a chynhwysiant.

Aeth rhai aelodau o staff i weminarau Llais y Plentyn a gynhaliwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc.

Gwnaethom ofyn am adborth ar sut y byddwn yn dal gwybodaeth am amrywiaeth a chynhwysiant mewn achosion yn y dyfodol.

Dywedodd y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc wrthym sut y gallem wella ein gwefan.



Ein staff (pobl sy'n gweithio i Cafcass Cymru)

Dros y flwyddyn ddiwethaf, bu llawer o broblemau wrth weithio'n uniongyrchol â phobl oherwydd COVID-19. Bu hyn yn newid mawr iawn inni ac rydym wedi gorfod sicrhau bod ein holl staff yn iawn ac wedi cael eu cadw'n ddiogel.

Beth ydym wedi'i wneud i sicrhau bod hyn wedi digwydd?



Gwnaethom gynnal sesiynau llesiant i bawb, gan helpu staff i wybod sut i gadw'n iach wrth weithio gartref. Mae hyn yn ymwneud â sicrhau eu bod yn teimlo'n iawn, yn ogystal â sicrhau eu bod yn cael digon o ymarfer corff ac nad ydynt yn eistedd o flaen eu cyfrifiadur drwy'r amser!


Roedd gweithio gartref yn newid mawr i lawer o'r staff, felly gwnaethom edrych ar yr hyn y gallem ei wneud i'w gwneud yn haws iddynt trwy roi pethau newydd iddynt megis sgriniau cyfrifiadur mwy o faint a chadeiriau desg.





Gwnaethom ysgrifennu cylchlythyrau i sicrhau bod pawb yn gwybod beth oedd y cynlluniau a'u bod yn cael gwybodaeth am yr hyn a oedd yn newid a phryd.

Gwnaethom holi sefydliadau eraill sut yr oeddent yn gwneud pethau. Roedd gan Cafcass yn Lloegr rai syniadau da, felly roeddem yn falch eu bod wedi rhannu'r rhain gyda ni.




Roedd mwy o waith yn y llysoedd teulu eleni nag o'r blaen, felly gwnaethom sicrhau y cawsom fwy o bobl i weithio inni pan oedd eu hangen arnom.

Ein rhanddeiliaid (pobl neu sefydliadau yr ydym yn cael cymorth ac adborth ganddynt)

Mae rhanddeiliaid yn bobl o sefydliadau gwahanol sy'n gweithio gyda'i gilydd i sicrhau'r canlyniadau gorau.


Pwy yw ein rhanddeiliaid? (Dyma rai yn unig er mwyn rhoi syniad ichi)

Y llysoedd teulu – dyma bobl fel y barnwyr, yr ynadon, y cynghorwyr cyfreithiol, a'r bobl sy'n gweithio yn y llysoedd a sicrhau bod yr holl waith papur cywir yn mynd i'r bobl gywir.



Gwasanaethau cymdeithasol – dyma'r holl weithwyr cymdeithasol, rheolwyr a swyddogion adolygu sy'n rhoi gwybod inni am y pethau y mae angen inni eu gwybod wrth iddynt gefnogi plentyn a'i deulu ynghyd â ni.

Swyddfa'r Comisiynydd Plant – mae'r bobl sy'n gweithio yma yn ddiogelu a hyrwyddo hawliau plant i sicrhau bod ganddynt lais ac i sicrhau y rhoddir cyfle i blant leisio'u barn yn y materion sy'n cael effaith arnynt.



**Adrannau eraill
Llywodraeth Cymru –**
rydym yn rhan o Lywodraeth
Cymru ac rydym yn
cydweithio â thimau eraill
sydd hefyd yn cefnogi plant,
pobl ifanc a theuluoedd.



Pwyllgor Cynggori – dyma grŵp o bobl
sy'n cynnwys aelodau o randdeiliaid
gwahanol, ac rydym yn rhoi gwybod
iddynt am yr hyn yr ydym yn ei wneud
a sut yr ydym yn gwneud, ac maent yn
rhoi gwybod i ni os oes angen inni wneud
rhywbeth yn well neu'n wahanol.



Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc – dyma grŵp o dros
50 o blant a phobl ifanc rhwng 7 a 25 oed sy'n byw ledled
Cymru a Lloegr. Mae pob un ohonynt naill ai wedi cael profiad
uniongyrchol o lysoedd teulu neu maediddordeb ganddynt mewn
hawliau plant a'r llysoedd teulu. Rydym yn gweithio gyda'r Bwrdd
Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc i sicrhau ein bod yn gwybod.






Ymchwilyr – Rydym yn gweithio gydag ymchwilyr a phrifysgolion i ddeall sut y gallwn wneud ein gwasanaethau'n well.

Rydym hefyd yn aelodau o lawer o grwpiau a rhwydweithiau eraill sy'n ein helpu i ddarparu'r gwasanaeth gorau y gallwn.





Edrych i'r dyfodol

Ein gwasanaeth

Dros y flwyddyn nesaf, gwneir llawer o waith i'n helpu i adfer o effeithiau'r pandemig. Bydd newidiadau eraill hefyd ym maes cyfraith teulu a byddwn yn gweithio gyda'n rhanddeiliaid, gan gynnwys y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc, ar y rhain.

Ein staff

Er bod nifer o heriau'r llynedd, gwyddom y gallwn ddysgu o hyd gan y newidiadau a wnaethom. Byddwn yn gweithio gyda'n staff i weld yr hyn yr hoffem barhau i'w wneud a chreu ffordd newydd o weithio i'r dyfodol.

Ein rhanddeiliaid

Byddwn yn sicrhau ein bod yn parhau i weithio'n agos gyda'n rhanddeiliaid. Byddwn yn edrych ar y ffyrdd gorau o ymgysylltu â'n rhanddeiliaid, plant a theuluoedd, megis defnyddio galwadau ffôn a fideo, er mwyn inni allu cydweithio i sicrhau'r canlyniadau gorau i blant a phobl ifanc.

